

Strategaeth  
Gwyddoniaeth,  
Tystiolaeth a Gwybodaeth  
2015-20



Asiantaeth  
Safonau  
Bwyd  
[food.gov.uk](http://food.gov.uk)

**YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD**  
**STRATEGAETH GWYDDONIAETH, TYSTIOLAETH A**  
**GWYBODAETH 2015-20**  
**CYNLLUN CYFLAWNI**

**1. CYFLWYNIAD**

Mae Strategaeth a Chynllun Strategol yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn datgan yn glir y bydd defnyddio gwyddoniaeth mewn ffordd effeithiol yn hanfodol i gyflawni'n nodau uchelgeisiol gan ddiogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.<sup>1</sup>

Mae'r cynllun yn nodi'r amcan strategol canlynol:

*Byddwn yn defnyddio gwyddoniaeth, tystiolaeth a gwybodaeth i fynd i'r afael â heriau heddiw yn ogystal ag i nodi a chyfrannu at fynd i'r afael â risgiau'r dyfodol.*

Mae'r Cynllun Cyflawni hwn yn nodi sut y byddwn yn gwneud hyn. Rydym wedi datblygu'r Cynllun gan weithio ar draws yr ASB a chyda rhanddeiliaid a phartneriaid allanol, yn cynnwys y llywodraeth a darparwyr cyllid ymchwil eraill. Cytunodd y Bwrdd ar y Cynllun ym mis Tachwedd 2015.

<sup>1</sup> <https://www.food.gov.uk/wales/about-fsa-wales/cymru/amdanomni/about-the-fsa>

## CYNLLUN CYFLAWNI STRATEGAETH GWYDDONIAETH, TYSTIOLAETH A GWYBODAETH 2015-20

### STRATEGAETH YR ASB: GWEITHIO TUAG AT FWYD Y GALLWN YMDDIRIED YNDDO

Yn 2014 cafodd strategaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ar gyfer 2015-2020 ei chymeradwyo gan y Bwrdd. Wrth ddatblygu'r strategaeth, aeth yr ASB ati i adolygu llawer o dystiolaeth ac ymgysylltu â defnyddwyr, staff yr ASB, rhanddeiliaid<sup>2</sup> er mwyn nodi'r prif themâu y byddai'r ASB yn eu defnyddio i lywio'i chynlluniau ar gyfer 2015-2020. Daeth nifer o themâu pwysig i'r amlwg sy'n llywio ein cynllun strategol. Mae'r themâu mwyaf pwysig yn gysylltiedig â'n cyfreithlondeb a'n rôl unigryw o fewn y llywodraeth fel sydd wedi'i nodi yn ein deddfwriaeth sefydlu (o'i gyfieithu):

“Prif amcan yr ASB wrth arfer ei swyddogaethau yw diogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau a allai godi mewn perthynas â bwyta bwyd (gan gynnwys risgiau â berir gan y ffordd y caiff y bwyd hwnnw ei gynhyrchu neu'i gyflenwi) ac fel arall i ddiogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.”

(o Adran 1 Deddf Safonau Bwyd 1999)

Wrth ganolbwyntio ar y diben hwn, a osodwyd gan y Senedd, ac ystyried y ffactorau amgylcheddol tebygol sy'n wynebu'r DU dros gyfnod y strategaeth nesaf a thu hwnt, cytunodd y Bwrdd i adfywio ac ail-bwysleisio addewid yr ASB:

Byddwn yn rhoi defnyddwyr yn gyntaf ym mhob agwedd ar ein gwaith.

Drwy ymgynghori â defnyddwyr, roedd modd nodi tair hawl sydd gan ddefnyddwyr, sy'n sylfaen i'n gwaith:

- Yr hawl i gael eu diogelu rhag lefelau risg annerbyniol.
- Yr hawl i wneud dewisiadau gan wybod y ffeithiau.
- Yr hawl i'r dyfodol bwyd gorau posibl.

Wrth lunio ein strategaeth, bu i'r Bwrdd gydnabod y bydd y system fwyd yn dod o dan fwy a mwy o bwysau dros y degawdau nesaf, ac na allwn fod yn siŵr pa mor gyflym y bydd y newidiadau hyn yn digwydd. Mae'r cynllun y cytunwyd arno ar gyfer 2015-20 yn canolbwyntio ar ddelio â heriau heddiw wrth geisio cryfhau pa mor barod ydym ni ar gyfer bygythiadau a chyfleoedd y dyfodol.

Mae'n Cynllun Strategol yn nodi'n gweithgareddau yn erbyn cyfres o ganlyniadau strategol, y byddwn yn mesur ein heffaith yn eu herbyn. Mae'r rhain yn gyson â'r diffiniad o fuddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, fel yr amlinellir yn y Strategaeth:

<sup>2</sup> Sefydliadau academiaidd a gwyddonol, defnyddwyr, cynrychiolwyr diwydiant, awdurdodau lleol ac adrannau eraill y llywodraeth a chyrrff anllywodraethol

- Mae bwyd yn ddiogel.
- Mae bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.
- Gall defnyddwyr wneud penderfyniadau gwybodus am beth i'w fwyta.
- Mae gan ddefnyddwyr fynediad at ddeiet fforddiadwy ac iach, nawr ac yn y dyfodol.

## DEFNYDDIO GWYDDONIAETH, TYSTIOLAETH A GWYBODAETH I DDARPARU BWYD Y GALLWN YMDDIRIED YNDDO

Mae'r Cynllun Strategol yn datgan yn glir y byddwn yn parhau i ddatblygu a defnyddio sail dystiolaeth gadarn yn ein gwaith i ddiogelu buddiannau defnyddwyr a chyfathrebu'n agored am y dystiolaeth honno. Caiff hyn ei adlewyrchu mewn amcan strategol cyffredinol sy'n sefydlu'r **weledigaeth** ar gyfer ein Strategaeth Gwyddoniaeth, Tystiolaeth a Gwybodaeth:

*Byddwn yn defnyddio gwybodaeth, tystiolaeth a gwybodaeth i fynd i'r afael â heriau heddiw yn ogystal ag i nodi a chyfrannu at fynd i'r afael â risgiau'r dyfodol.*

Mae'r Strategaeth Gwyddoniaeth, Tystiolaeth a Gwybodaeth a'i Chynllun Cyflawni'n nodi beth fyddwn ni'n ei wneud i sicrhau ein bod ni'n cyflawni'r amcan hwn.

Mae gan yr ASB hanes llwyddiannus o fod yn sefydliad sy'n seilio ei waith ar wyddoniaeth a thystiolaeth, ond bydd angen i ni wella eto er mwyn ymateb i'r heriau newydd hyn. Er mwyn gwneud hyn byddwn yn sicrhau bod ein gwaith Strategaeth Gwyddoniaeth, Tystiolaeth a Gwybodaeth yn dilyn yr **egwyddorion** hyn: bydd yn

- **canolbwyntio** ar y peryglon a'r heriau mwyaf i fuddiannau defnyddwyr a sut y gallwn sicrhau cymaint o effaith â phosibl drwy'n gweithgarwch ein hunain a thrwy gefnogi defnyddwyr ac eraill i weithredu
- **edrych tua'r dyfodol ac yn arloesol** i nodi materion newydd a datblygu ein gallu i wneud mwy yn well gyda llai
- **cysylltiedig** ar draws disgyblaethau a data ac i amcanion strategol yr ASB i sicrhau cymaint o effaith â phosibl o'n tystiolaeth a'i defnydd yn ein holl waith
- **edrych tuag allan** i harneisio grym o weithio gydag a thrwy eraill
- **rhagweithiol** i ddatblygu ein sgiliau, ein galluoedd a'n hymgysylltiad ein hunain ar draws yr ASB a'r gymuned wyddoniaeth ehangach.

### Y prif gwestiynau, heriau a chyfleoedd

Er mwyn **rhoi defnyddwyr yn gyntaf** mae'n rhaid i ni ddeall ble mae'r cydbwysedd gorau rhwng y risgiau, yr anfanteision, y manteision a buddiannau eraill defnyddwyr sy'n codi yn y system fwyd, a sut mae'r ffactorau hyn yn wahanol i wahanol ddefnyddwyr mewn cyd-destunau gwahanol.

Er mwyn sicrhau bod **bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label** mae angen i ni ddeall pa risgiau ac anfanteision i'w targedau a pha ddulliau sy'n fwyaf effeithiol, ar sail asesiad risg cadarn seiliedig ar dystiolaeth o ble a sut mae risgiau ac anfanteision yn codi, a sut maent yn effeithio ar wahanol grwpiau. Ochr yn ochr â'r ddealltwriaeth dechnegol hon o risg byddwn angen tystiolaeth o beth mae gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr, busnesau bwyd ac eraill yn ei deimlo am ba risgiau sy'n dderbyniol ac am y mathau o adnoddau a mesurau y gellid eu defnyddio i reoli'r risgiau hyn, a sut mae'r safbwyntiau hyn yn newid i grwpiau ac unigolion. Bydd angen i ni ddeall a phrofi pa fesurau sydd fwyaf effeithiol yn ymarferol i leihau neu reoli risgiau, a sut mae eu hargaeledd a'u heffeithiolrwydd yn newid i wahanol grwpiau a chyd-destunau. Bydd angen i ni



gyfuno'r elfennau tystiolaeth hyn gyda dealltwriaeth o ymddygiad defnyddwyr, busnesau, rheoleiddwyr ac eraill yn y system fwyd, ac ymddygiad y system fwyd ei hun. Mae hyn yn cynnwys deall y ffactorau sbarduno a'r dylanwadwyr ehangach yn y system, fel y gallwn fanteisio ar gyfleoedd lle mae buddiannau a chymhellion yn cyd-fynd er budd defnyddwyr ac eraill, a deall a cheisio mynd i'r afael â thensiynau a chyfaddawdau rhwng buddiannau a chymhellion, a sut gellir adlewyrchu'r rhain yn ein trafodaethau a'n penderfyniadau mewn ffordd sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Gyda'i gilydd, bydd ein tystiolaeth a'n dadansoddiad yn y meysydd hyn yn llywio'n polisi a'n gwaith rheoleiddio drwy ein galluogi i ganolbwyntio ar y canlyniadau gorau ac i fabwysiadu dull seiliedig ar dystiolaeth gyda meddwl agored o nodi a hyrwyddo'r dulliau sy'n gweithio orau i gyflawni'r canlyniadau hynny.

I helpu i gefnogi'r amcan penodol bod **defnyddwyr yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus am beth i'w fwyta**, mae angen i ni barhau i weithio gyda defnyddwyr, busnesau, rheoleiddwyr ac eraill yn y llywodraeth a thu allan i ddeall beth sy'n helpu pobl i wneud penderfyniadau gwybodus, ac i ddatblygu'r wybodaeth a'r adnoddau eraill sydd eu hangen i gefnogi hyn.

Bydd angen i ni ddatblygu ac ystyried y dystiolaeth ehangach hefyd am ba ddulliau sy'n effeithiol o ran dylanwadu ar ymddygiad - boed gan ddefnyddwyr eu hunain, gan ddiwydiant, gan reoleiddwyr a'r rhai sy'n gweithio ym maes gorfodi - a pha rai o'r rhain sy'n gweithio orau i gefnogi arferion sy'n arwain at fanteision i ddefnyddwyr. Mae angen i ni ddeall pa gyfuniadau o ddulliau sy'n gweithio orau i gyflawni'n hamcanion dymunol - o reoleiddio ffurfiol i ddulliau sy'n seiliedig ar newid ymddygiad a chefnogi penderfyniadau gwybodus.

Er mwyn helpu i sicrhau bod **gan ddefnyddwyr fynediad at ddeiet fforddiadwy ac iaith, nawr ac yn y dyfodol**, mae angen i ni ddeall pa fath o sefyllfa y gallem fod ynnddi o ran bwyd yn y dyfodol, ar sail gwaith sganio'r gorwel a dadansoddi strategol effeithiol, a thrwy feithrin ein gallu i ragweld a rhagfynegi'n well o ran nodi risgiau newydd a datblygol, a deall pa newidiadau neu arwyddion yn y system fwyd a allai fod yn ddefnyddiol i'n helpu ni i wneud hyn. Ochr yn ochr â hyn mae angen i ni weithio gyda defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill i ddeall sut y gall gwahanol sefyllfaoedd o ran bwyd y dyfodol effeithio ar fuddiannau defnyddwyr, a beth fyddem ni a nhw am geisio ei gefnogi, neu ei osgoi, i ddylanwadu ar y rhain. Mae angen i ni weithio gydag eraill i fanteisio ar botensial technolegau a dulliau arloesol newydd i ddarparu ffyrdd newydd a gwell er budd defnyddwyr a'r system fwyd. A bydd angen i ni feithrin ein dealltwriaeth o'r system fwyd fel system, a sut i ddefnyddio hyn i gael dealltwriaeth a all ein helpu i dargedu ein gwaith yn effeithiol.

### **Gwneud y gorau o wyddoniaeth, tystiolaeth a gwybodaeth**

Byddwn yn cymryd golwg gynhwysol ar wyddoniaeth, tystiolaeth a gwybodaeth, gan ddefnyddio pob math o ddisgyblaethau a ffynonellau a all fod yn ddefnyddiol - yn cynnwys y gwyddorau naturiol, ffisegol a chymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio mathau a ffynonellau data a gwybodaeth nad ydynt yn 'wyddonol' yn yr ystyr draddodiadol o reidrwydd ond y gallwn gymhwyso gwyddor data a dulliau dadansoddi strwythuredig iddynt i sicrhau dealltwriaeth a manteision defnyddiol, i'n hunain ac i eraill.

Byddwn yn defnyddio data cyfredol lle bynnag y gall hynny fod yn ddefnyddiol ac yn darparu ein data ein hunain mewn ffyrdd sy'n ein galluogi ni ac eraill i gael gafael arno a'i ddefnyddio, ble bynnag y gallwn.

Byddwn yn chwilio am ac yn defnyddio'r dystiolaeth, y wybodaeth a'r dulliau dadansoddi gorau i lywio'n polisi a'n darpariaeth, waeth o ble y daw. Byddwn yn casglu ac yn adlewyrchu tystiolaeth ar wahaniaethau daearyddol neu wahaniaethau eraill, lle maent yn berthnasol i segmentu effeithiol neu dargedu polisi, darpariaeth neu gyngor i ddefnyddwyr. Byddwn hefyd yn ceisio manteisio ar y potensial i wahanol wledydd fod yn fannau profi effeithiol i dreialu dulliau newydd (gan adeiladu ar brofiad fel ei gwneud hi'n orfodol i ddangos graddfeydd y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru).

Wrth ddefnyddio ystod amrywiol a chynhwysol o fathau a ffynonellau tystiolaeth a gwybodaeth bydd angen i ni ddeall ei hansawdd a'i chyfyngiadau, fel y gallwn sicrhau ei bod yn addas i'r diben ar gyfer ein defnydd ni (a gwneud hyn yn glir i eraill a allai fod eisiau ei defnyddio) ac wrth ddefnyddio

tystiolaeth, ein bod ni'n gwerthfawrogi ac adlewyrchu'n briodol yr hyder sydd gennym yn y dystiolaeth a'i dehongliad yn ein penderfyniadau a'n gwaith cyfathrebu, a natur a goblygiadau'r ansicrwydd cysylltiedig.

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein trefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu wrth i ni ddefnyddio ffynonellau mwy amrywiol o wybodaeth a dadansoddeg, gan adeiladu ar weithdrefnau sefydledig yn ein meysydd craidd (fel asesu risg) a'n gwaith arloesol yn sefydlu Grŵp Dadansoddeg, Adolygu ac Arloesedd Cyfryngau Cymdeithasol i'n cynghori ni a phartneriaid y llywodraeth yn y maes hwn sy'n datblygu.

### **Themâu a gweithgareddau blaenoriaeth**

Rydym wedi datblygu fframwaith ar gyfer y Strategaeth Gwyddoniaeth, Tystiolaeth a Gwybodaeth gan ddefnyddio dau ffocws gwahanol:

- y meysydd gwyddoniaeth y bydd angen i ni eu datblygu a'u defnyddio ('beth'); a'r
- ffordd rydym yn datblygu a chynnal ein gwyddoniaeth ('sut').

Mae dwy set o themâu'n datblygu o'r dadansoddiad hwn:

#### **Y wyddoniaeth sydd angen i ni ei datblygu a'i defnyddio**

1. Deall **risgiau** a sut i'w gwerthuso a'u cymharu, fel y gallwn dargedu'n gwaith ar ddiogelu defnyddwyr yn effeithiol
2. Defnyddio **data**, gwybodaeth a dadansoddeg yn ddeallus a rhannu'r defnydd ohonynt, i ddeall risgiau cyfredol, nodi risgiau newydd a newidiol, a datblygu trefniadau goruchwyllo a rheoleiddio effeithiol wedi'u targedu
3. Deall **defnyddwyr, busnesau bwyd, partneriaid gorfodi ac eraill yn y system fwyd** a sut y gallwn weithio gyda nhw i gefnogi newid mewn ymddygiad a datblygu a lledaenu arferion da
4. Dysgu o **beth sy'n gweithio** a beth sydd ddim yn gweithio, i sicrhau'r effeithiau cadarnhaol gorau posibl a gwerth am arian, drwy'n gwaith ein hunain a'n gwaith gydag eraill

#### **Y ffordd rydym yn cynnal ein gwyddoniaeth**

Bydd pedair thema'n sail i'n holl waith i sicrhau bod ein defnydd o wyddoniaeth yn addas i'r diben, yn effeithiol, effeithlon ac agored, ac yn gywir a chyflawn:

1. Meithrin a chynnal y **sgiliau a'r galluoedd** rydym eu hangen
2. Sicrhau **ansawdd** ein gwyddoniaeth, ein tystiolaeth a'n gwybodaeth a'r defnydd ohonynt fel eu bod o fudd i ni ac o ddefnydd ac yn gyfreithlon i eraill
3. **Defnyddio, cyfathrebu a throsglwyddo gwybodaeth** am wyddoniaeth, tystiolaeth a gwybodaeth, ar gyfer gweithredu'n agored, ymgysylltu a defnydd ac effaith effeithiol gan yr ASB ac eraill
4. Cyflawni amcanion uchelgeisiol ac effaith drawsbynciol drwy **artneriaethau strategol**

Nodir yr amcanion a'r prif weithgareddau y byddwn yn eu cyflawni ym mhob un o'r themâu hyn isod.

## EIN RHAGLEN GWYDDONIAETH, TYSTIOLAETH A GWYBODAETH AR GYFER 2015-20

Rydym wedi defnyddio'r fframwaith a'r dadansoddiad uchod i ddatblygu rhaglen waith dros y pum mlynedd nesaf. Ar gyfer pob thema rydym wedi nodi'r prif gwestiynau ac amcanion rydym am eu cyflawni, a rhai prif weithgareddau y byddwn yn eu cynnal.

Gan adeiladu ar hyn, rydym wedi datblygu rhaglen waith fanwl y byddwn yn ei chyhoeddi a'i diweddarau bob blwyddyn i adlewyrchu ein cynnydd ein hunain ac eraill a datblygiadau ehangach. Bydd hyn yn fodd o hysbysu rhanddeiliaid am ein cynlluniau ac i gael mewnbwn gan arbenigwyr allanol a phartneriaid posibl cyn i ni greu fersiwn derfynol o'n gwaith comisiynu i nodi ffyrdd gwell o ffurfio ein hanghenion, tystiolaeth gyfredol a allai ddiwallu'n anghenion, a chyfleoedd i gydweithio. Byddwn hefyd yn cyhoeddi ac yn ceisio cael y mewnbwn hwn ar ddarnau unigol o waith newydd wrth iddynt ddod i'r amlwg, cyn iddynt gael eu comisiynu.

### Pennu ac adolygu blaenoriaethau

Mae angen i'n rhaglen wyddoniaeth fynd i'r afael a chydbwysu'r hyn sydd ei angen ei wneud yn awr gyda gwaith tymor hirach, a gweithio i fynd i'r afael â materion penodol gyda gwaith sy'n fwy trawsbynciol, yn ogystal â gwaith y mae'n rhaid i ni ei wneud. Bydd angen iddi fod yn rhagweithiol effro ac ymatebol i ddatblygiadau newydd yn y materion hefyd ac yn ein gallu i ymateb iddynt. Byddwn yn datblygu partneriaethau strategol i sicrhau ein bod ni'n uchelgeisiol ac yn gysylltiedig wrth lywio'n gwaith a bod hyn yn sicrhau effaith drawsbynciol.

Rydym wedi nodi pedwar prif fath o waith gyda meini prawf ar gyfer llwyddiant, a amlinellir isod, a ddefnyddir i flaenoriaethu ac asesu cydbwysedd ein rhaglen waith.

#### Cefnogi blaenoriaethau polisi a gweithredol

Gwyddoniaeth, tystiolaeth a gwaith dadansoddi i lywio a gwerthuso gwaith polisi, rheoleiddio a gweithredol penodol. Ffocws ar berthnasedd, amseroldeb a llwybr effeithiol i greu effaith.

#### Meithrin gallu at y dyfodol

Strategol a thymor hirach, ffocws ar ddatblygu galluoedd y dyfodol, ffyrdd gwell neu wahanol iawn o wneud pethau yn y dyfodol, a phrosiectau risg uchel/manteision niferus.

#### Statudol

Gwaith y mae gofyn i ni ei wneud drwy statud (fel goruchwyllo a monitro). Ffocws ar wneud hyn yn y ffordd fwyaf effeithlon ac ychwanegu gwerth drwy ddefnyddio cysylltiadau i waith arall a rhannu a defnyddio data.

#### Craidd a thrawsbynciol

Galluoedd a data craidd sy'n sail i'n gwaith - fel data ar ddefnydd o fwyd ac ymddygiad pobl ac i sicrhau llywodraethu, ansawdd ac effaith. Ffocws ar berthnasedd, gwerth am arian a defnydd effeithiol gennym ni ac eraill.

**Bydd datblygu partneriaethau strategol yn ganolog i'n holl waith**

## **Arloesedd a'r Rhaglen Dystiolaeth Strategol**

Bydd ein rhaglen yn cydbwysu gwaith sy'n canolbwyntio ar ein blaenoriaethau uniongyrchol gyda gwaith arloesol a strategol sy'n edrych tua'r dyfodol i fwy o raddau. Byddwn yn rheoli'r rhan fwyaf o'n gwaith strategol mewn Rhaglen Dystiolaeth Strategol newydd, dan arweiniad a chyfarwyddyd Prif Gyngorydd Gwyddonol yr ASB, gyda ffocws ar ddatblygu partneriaethau strategol a gwaith sy'n edrych tua'r dyfodol. Mae gan y rhaglen hon gyllideb wahanol ac elfen gref o weithio mewn partneriaeth â chyllidwyr eraill.

## **Gwerthuso ac adolygu**

Bydd sail resymegol glir, llwybr i greu effaith a chynllun i wireddu hyn (gan adlewyrchu'r meini prawf llwyddiant perthnasol a amlinellir uchod) gan bob prosiect a rhaglen a byddant wedi'u cytuno o'r cychwyn.

## **Cysylltu ag amcanion strategol**


Mae'r diagram isod yn dangos sut mae themâu a gweithgareddau'r Strategaeth Gwyddoniaeth, Tystiolaeth a Gwybodaeth yn adlewyrchu a chefnogi amcanion Cynllun Strategol yr ASB.



Mae themâu'r Strategaeth Gwyddoniaeth, Tystiolaeth a Gwybodaeth yn adlewyrchu a llywio canlyniadau Cynllun Strategol yr ASB

	Mae bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label	Rhoi'r grym i ddefnyddwyr	Alinio cynlluniau cymhelliant	Bod y sefydliad gorau y gallwn fod
Risgiau	Tystiolaeth am risgiau ac anfanteision cyfredol/newydd Pa mor effeithiol a derbyniol yw risgiau ac opsiynau i'w rheoli	Adnoddau a dulliau yn helpu i gefnogi penderfyniadau gwybodus	Tystiolaeth i ddiffinio'r canlyniadau ar gyfer rheoleiddio i gyflawni Profi dulliau yn ymarferol i gael yr effaith orau bosibl	Datblygu dulliau technolegol arloesol a dulliau arloesol eraill i nodi a rheoli risgiau ac i gyflawni'n gwaith yn well
Data	Dulliau gwell o greu data sylfaenol am risgiau ac anfanteision cyfredol a nodi a rhagweld rhai newydd	Sicrhau bod ein data ar gael ac y gallwn ni ac eraill ei ddefnyddio Dulliau newydd a gwell o ymgysylltu â defnyddwyr a chefnogi penderfyniadau gwybodus	Dod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio ein data ni ac eraill a gweithio gyda busnesau ar gyfer rheoleiddio gwell	Datblygu dulliau newydd a gwell o weithio gyda data, ar gyfer yr ASB a chydag eraill Llywodraethu a sicrhau ansawdd data a gwybodaeth
Defnyddwyr, busnesau, partneriaid gorfodi a'r system fwyd	Deall defnyddwyr, busnesau a phartneriaid gorfodi a'u barn ac ymddygiad Deall y system fwyd a beth sy'n ysgogi/arwydd o risg yn newid	Gwyddoniaeth dinasyddion Deall beth sy'n gweithio i ddylanwadu ar ymddygiad defnyddwyr	Deall beth sy'n gweithio i ddylanwadu ar ymddygiad busnes a rheoleiddio	Deall y system fwyd ehangach a ble a sut y gallwn ni ac eraill gael yr effaith fwyaf effeithiol
Beth sy'n gweithio	Gwerthuso polisi Cymharu effeithiau risgiau ac anfanteision annhebyg a'n heffaith arnynt	Gwerthuso gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu Profi ffyrdd newydd o gysylltu a dylanwadu ar ddefnyddwyr	Profi dulliau a modelau cyfredol Datblygu a phrofi modelau a dulliau newydd	Datblygu adnoddau i ddeall a mesur effaith ar draws ein holl waith i lywio blaenoriaethau ac ysgogi gwelliannau

Casglu a defnyddio gwyddoniaeth, tystiolaeth a gwybodaeth



## DEALL RISGIAU A SUT I'W TARGEDU

Bydd gwaith yn y thema hon yn ein helpu ni i ddeall risgiau a sut i'w cymharu a'u gwerthuso, fel y gallwn dargedu'n gwaith ar ddiogelu defnyddwyr yn effeithiol i'r llefydd y bydd yn cael yr effaith fwyaf. Bydd hyn yn:

- cefnogi'n amcan i sicrhau bod **bwyd yn ddiogel a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label** drwy ddarparu tystiolaeth gadarn, gyfredol ar risgiau ac anfanteision cyfredol a newydd, sut mae'r rhain wedi'u cysylltu â'i gilydd a sut y gellir eu rheoli, a sut mae defnyddwyr ac eraill yn teimlo am risgiau a mesurau rheoli posibl. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar flaenoriaethau ar *Campylobacter*, bod yn agored i risgiau bwyd, alergedd ac anoddefiad, cemegion bwyd a throseddau bwyd.
- cefnogi gwaith i ddatblygu **rheoleiddio a darpariaeth effeithiol ac effeithlon** drwy ddarparu sail gadarn ar gyfer canlyniadau cymesur, yn seiliedig ar risg, ar gyfer cymharu a phrofi opsiynau rheoli a dulliau darparu (gweler BETH SY'N GWEITHIO).
- llywio'n gwaith ar sefyllfaoedd gwahanol yn y **dyfodol o ran bwyd** drwy ddarparu tystiolaeth ar sut y gallai risgiau newid a'r risgiau a'r cyfleoedd newydd a allai ddatblygu yn y dyfodol.
- **meithrin gallu ar gyfer y dyfodol** drwy ddatblygu defnydd arloesol o dechnoleg a dulliau newydd eraill i nodi a rheoli risgiau a chyflawni'n gweithrediadau mewn ffyrdd mwy effeithlon.

### Prif weithgareddau

Cynnal gweithdy mewn partneriaeth ag Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ar feirysau a gludir gan fwyd ym mis Chwefror 2016 (Blwyddyn 1), a gwaith dilynol i fynd i'r afael â'r prif anghenion a'r bylchau tystiolaeth a nodwyd (Blwyddyn 2 a thu hwnt).

Comisiynu adolygiad systematig o gyfraniad y system fwyd at ymwrthedd i gyffuriau (dechrau ym Mlwyddyn 1) a gwaith dilynol i fynd i'r afael â'r bylchau ac anghenion tystiolaeth blaenoriaeth a nodwyd yn yr adolygiad (Blwyddyn 2 a thu hwnt), gan weithio'n agos â'r Pwyllgor Cyngori ar Ddiogelwch Microboleol Bwyd ac arbenigwyr a rhanddeiliaid eraill.

Gweithio gyda gwyddonwyr, rheoleiddwyr, defnyddwyr a busnesau i ddatblygu, defnyddio a gwerthuso dulliau tryloyw, seiliedig ar dystiolaeth o wneud penderfyniadau ar risg. Dros bum mlynedd y Strategaeth bydd hyn yn mynd i'r afael â'r canlynol:

- mesurau risg ac effaith cymharol, a chymharu risgiau ac anfanteision annhebyg;
- gweithio gyda defnyddwyr ac eraill i ddeall eu barn ar ba mor dderbyniol yw gwahanol fathau o anfanteision i ddefnyddwyr mewn perthynas â bwyd ac opsiynau i'w rheoli;
- fframweithiau, adnoddau a data i gefnogi penderfyniadau sy'n cydbwysu risgiau, manteision a ffactorau eraill mewn ffyrdd cyson, seiliedig ar dystiolaeth a thryloyw;
- dull cyson a chlir o ymdrin ag ansicrwydd wrth wneud penderfyniadau;
- adnoddau effeithiol i ymgysylltu a chyfathrebu am risgiau sy'n cefnogi penderfyniadau gwybodus.

## DATA

Bydd gwaith y thema hon yn datblygu defnydd deallus o ddata, gwybodaeth a dadansoddeg a rhannu hynny, i'n helpu ni i nodi risgiau newydd a chefnogi trefniadau goruchwyllo a rheoleiddio effeithiol wedi'u targedu. Bydd hyn yn:

- datblygu a phrofi ffyrdd o wella effeithlonrwydd a budd ein **gwaith rheoleiddio a'n darpariaeth weithredol** drwy fynediad gwell i ddata a defnydd gwell ohono, i ddarparu gwybodaeth a sicrwydd mwy effeithiol ac effeithlon yn y system fwyd, yn cynnwys drwy gyfleoedd ar gyfer dulliau ar y cyd pan fo cymhellion yn gyson.
- Meithrin **galluoedd y dyfodol** drwy ddatblygu ffynonellau a dulliau newydd o ddadansoddi data i lywio'n dealltwriaeth ar **risgiau** cyfredol a llinellau sylfaen a sut y gall risgiau newid a risgiau newydd ymddangos yn y dyfodol, a sut y gall sefyllfaoedd gwahanol yn y dyfodol o ran bwyd ddatblygu.

Prif weithgareddau
Cyfuno data o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd â phlatfformau eraill (er enghraifft, Yelp, TripAdvisor a Google) i sicrhau cymaint o sylw a defnydd o'r data hwn a'i effaith ar ymwybyddiaeth ac ymddygiad defnyddwyr a busnesau.
Profi defnydd o'r adnoddau ar gyfer defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer rhybudd cynnar am Norofeirws mewn sefyllfa go iawn yn ystod Gaeaf 2015/16, gan weithio gyda Public Health England, NHS Choices a'r Adran Addysg (Blwyddyn 1).
Adeiladu ar ein gwaith ar y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd fel arweinydd cydnabyddedig o ran data agored y llywodraeth, gan weithio yn ystod oes y Strategaeth i ddod o hyd i ffyrdd o wneud ein holl ddata'n agored mewn ffyrdd y gall ac y mae pobl yn eu cyrchu a'u defnyddio i sicrhau gwerth ychwanegol ac arloesedd, er enghraifft i dargedu a phrofi effaith arolygiadau (Blwyddyn 2 ymlaen).
Datblygu dull agored a chydweithredol o oruchwyllo sy'n ein galluogi i dargedu, casglu a dadansoddi data defnyddiol am y system fwyd a phethau sy'n effeithio arni, a defnyddio hyn i lywio asesiadau risg a gwaith rheoli risg ac i fireinio trefniadau goruchwyllo ymhellach.

## DEALL DEFNYDDWYR, BUSNESAU, PARTNERIAID GORFODI A'R SYSTEM FWYD

Bydd gwaith y thema hon yn canolbwyntio ar ddeall defnyddwyr, busnesau bwyd, partneriaid gorfodi a chyfranogwyr eraill yn y system fwyd, beth yw'r ffordd orau o ddylanwadu arnynt a gweithio gyda nhw i gefnogi newid mewn ymddygiad a datblygu a lledaenu arferion da, a sut y gall y pethau hyn newid a datblygu yn y dyfodol. Bydd hyn yn:

- darparu'r sail ar gyfer **cefnogi newid ymddygiad** drwy dystiolaeth gadarn a chyfredol am amrywiaeth defnyddwyr y DU, eu barn, pryderon ac ymddygiad, yn cynnwys pa ddulliau sy'n gweithio orau i **gefnogi defnyddwyr i wneud penderfyniadau gwybodus**
- cefnogi'n gwaith ar **bolisi effeithiol a rheoleiddio effeithlon** drwy ddarparu tystiolaeth ar farn ac ymddygiad defnyddwyr, busnesau a'r rhai sy'n gweithio ym maes rheoleiddio a gorfodi, a beth fydd yn gweithio orau i ddylanwadu ar eu hymddygiad ac i sicrhau manteision i ddefnyddwyr – gan adlewyrchu'r amrywiaeth sy'n bodoli yn y grwpiau hyn
- **meithrin gallu'r dyfodol** drwy ddatblygu'n dealltwriaeth o newid ymddygiad mewn perthynas â bwyd a'r system fwyd ehangach

### Prif weithgareddau

Casglu tystiolaeth ategol a gwaith dadansoddi a chynnal cynhadledd i randdeiliaid ar ddyfodol bwyd a buddiannau defnyddwyr ym mis Chwefror 2016 (Blwyddyn 1), a datblygu a gweithredu rhaglen o weithgareddau ym Mlwyddyn 2 ymlaen, gan ddefnyddio canlyniadau'r gynhadledd a gwaith arall yn y llywodraeth ac yn ehangach

Cwmpasu a chomisiynu adolygiad o fodelau newid ymddygiad (Blynyddoedd 1 a 2) i nodi'r rhai sydd â'r potensial mwyaf i gefnogi amcanion yr ASB a threalu a gwerthuso'r defnydd o fodelau dewisedig ym mhrosiectau real yr ASB (o Flwyddyn 3 ymlaen)

Cwmpasu'r potensial ar gyfer defnyddio gwyddoniaeth dinasyddion i helpu i ddarparu bwyd y gallwn ymddiried ynddo, a gweithredu rhaglen o wyddoniaeth dinasyddion (o Flwyddyn 2 ymlaen), gan adeiladu ar brosiect cynnar i ddatblygu adnodd ar-lein ar gyfer casglu a dadansoddi adroddiadau dinasyddion ar faterion diogelwch bwyd mewn modd strwythuredig (Blwyddyn 1).

## BETH SY’N GWEITHIO

Mae gwaith y thema hon yn sail i’n holl waith ac yn ein helpu ni i brofi a gwella ei effaith a’i effeithiolrwydd. Bydd yn canolbwyntio ar brofi a dysgu o beth sy’n gweithio (a beth sydd ddim yn gweithio) i sicrhau cymaint o effeithiau cadarnhaol â phosibl, drwy ein gwaith ein hunain a’n gwaith gydag eraill. Bydd hyn yn:

- **sail i’n holl waith** ac yn ein helpu ni i ddeall, dangos a gwella effaith a manteision ein gwaith a’i werth am arian yn barhaus
- **meithrin galluedd y dyfodol** drwy ddatblygu a phrofi ffyrdd newydd a gwell o fynd i’r afael a chymharu effaith a manteision ein gwaith i lywio gwaith blaenoriaethu, adolygu a gwella.

Prif weithgareddau
Gwerthuso effaith y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd i ddeall a sicrhau ei fod yn cael cymaint o effaith â phosibl nawr a beth fyddai’n gweithio orau i gynnal hyn ac adeiladu arno.
Datblygu’n defnydd o adnoddau data a dadansoddi, yn cynnwys dadansoddiadau economaidd, i asesu effaith a manteision ein gwaith a chymharu effeithiau risgiau annhebyg (er enghraifft, diogelwch bwyd microbiolegol ac alergedd bwyd neu risgiau microbiolegol aciwt o bathogenau, a risgiau cronig o gemegion fel acrylamid), fel y gallwn ddeall a datblygu hyder yn ein gallu i flaenoriaethu materion a’n effaith arnynt yn well.
Profi ac adolygu effeithiolrwydd ein dull cyfredol o weithredu Mesurau Rheoli Swyddogol i nodi gwelliannau i effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd (Blwyddyn 1 a 2), a chwmpasu a phrofi dulliau newydd, yn cynnwys defnydd arloesol o dechnoleg, a allai ddarparu dulliau llawer gwahanol a gwell yn y dyfodol (Blwyddyn 2 ymlaen).
Cwmpasu a threalu ffyrdd newydd o gyflawni amcanion polisi a rheoleiddio (er enghraifft, trwy sicrwydd ar y cyd a defnyddio gwybodaeth trydydd parti), a deall pa mor effeithiol yw gwahanol adnoddau a dulliau gorfodi (a chyfuniadau ohonynt), a defnyddio hyn i ddatblygu, profi a gwella’n perfformiad fel rheoleiddiwr.

## SUT

Bydd gwaith yn y pedair thema SUT yn canolbwyntio ar sicrhau bod ein defnydd o wyddoniaeth yn addas i’r diben, yn effeithiol ac effeithlon, ac yn gywir a chyflawn. Mae’r rhain yn amodau sylfaenol ar gyfer llwyddiant sy’n berthnasol i’n holl waith, ond sy’n gysylltiedig â BETH SY’N GWEITHIO yn arbennig gan y byddant yn ein helpu ni i ddeall a gwneud beth sy’n gweithio i’n tystiolaeth a’n gwybodaeth am wyddoniaeth.

Nodir y prif weithgareddau yn y pedair thema isod.



## **Ansawdd**

Sicrhau ansawdd ein gwyddoniaeth, tystiolaeth a gwybodaeth a'u defnydd fel eu bod o fudd i ni ac yn ddilys i eraill:

*Adolygu ein fframwaith Sicrhau Ansawdd i sicrhau ei fod yn parhau'n addas i'r diben ar gyfer ein holl wyddoniaeth, tystiolaeth a gwybodaeth, yn cynnwys mewn meysydd mwy newydd fel defnyddio data a gwybodaeth (Blynyddoedd 1 a 2)*

*Cefnogi a sicrhau'r defnydd o fframweithiau ar gyfer defnydd effeithiol a thryloyw o dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau*

## **Defnyddio, cyfathrebu ac effaith**

Defnyddio, cyfathrebu a throsglwyddo gwybodaeth am wyddoniaeth, tystiolaeth a gwybodaeth, ar gyfer gweithredu'n agored, ymgysylltu a defnydd ac effaith effeithiol gan yr ASB ac eraill

*Datblygu a gweithredu dull cyson i sicrhau ein bod ni'n nodi a darparu llwybrau a chynlluniau clir i'w defnyddio a chreu effaith ar gyfer ein holl waith gwyddoniaeth, tystiolaeth a gwybodaeth (Blynyddoedd 1 a 2)*

*Rhannu'n data a gwybodaeth mewn ffyrdd y gall eraill eu defnyddio (prosiectau a threialon cychwynnol Blynyddoedd 1 a 2; gan eu cadarnhau a'u defnyddio o hynny ymlaen)*

*Sefydlu cyfres o Adroddiadau Chwarterol gan y Prif Gynghorydd Gwyddonol i gyfathrebu gwyddoniaeth yr ASB a'i heffaith mewn ffyrdd sy'n hygyrch i gynulleidfa eang a galluogi'r rhai sydd am wneud hynny i dreiddio'n fanylach (Blwyddyn 1)*

## **SUT**

**Mae ein defnydd o wyddoniaeth yn addas i'r diben, yn effeithiol ac effeithlon, yn agored ac yn gywir a chyflawn.**

## **Sgiliau a galluoedd**

Meithrin a chynnal y sgiliau a'r galluoedd gwyddoniaeth rydym eu hangen, yn yr ASB ac yn allanol

*Cwblhau Adolygiad o Bwyllgorau Cynghori Gwyddonol yr ASB i sicrhau bod y strwythurau a'r ffynonellau cyngor arbenigol annibynnol priodol gennym i ddiwallu'n anghenion (Blwyddyn 1) a gweithredu argymhellion (Blwyddyn 2 ymlaen)*

*Dadansoddi anghenion a bylchau sgiliau a datblygu strategaeth sgiliau gwyddoniaeth*

*Gweithio ar draws y llywodraeth i gefnogi proffesiynau gwyddoniaeth, gan ddechrau gyda chydgyssylltu a chymorth ar gyfer gwenwynegwyr ym Mlwyddyn 1*

## **Partneriaethau gwyddoniaeth strategol**

Mae partneriaethau strategol yn greiddiol i'r holl weithgareddau uchod a chânt eu hamlygu yn rhannau eraill y Cynllun. Ymysg y rhain, bydd y canlynol yn arbennig o bwysig:

*Cynnal a datblygu ein mynediad i rwydweithiau arbenigol a'n defnydd ohonynt*

*Datblygu ac ehangu'n partneriaethau, yn cynnwys gyda Defra a Public Health England (a'r cyrff cyferwerth yng Nghymru a Gogledd Iwerddon), Food Standards Scotland, llywodraethau datganoledig, awdurdodau lleol a phartneriaid gorfodi, y diwydiant, a defnyddwyr a grwpiau sy'n eu cynrychioli*

*Rhaglenni ar y cyd gyda Chynghorau Ymchwil, Innovate UK a chyllidwyr eraill, yn cynnwys y Wellcome Foundation*

*Partneriaethau i ddatblygu meddwl a chyflawni gwaith gyda'r rhai sy'n gweithio ar y datblygiadau mwyaf arloesol (yn cynnwys ITAAU+, Alan Turing Institute, AIMS, KTN, Digital Catapult, yr UE a Horizon 2020)*